

# Canolfan Ddiwylliant Conwy

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd gwaith yn dechrau ar Ganolfan Ddiwylliant Conwy yn 2018. Bydd y Ganolfan yn gartref i lyfrgell ar gyfer ardal Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno yn ogystal â Chasgliadau Archif ac Amgueddfa'r sir, arddangosfeydd rhyngweithiol a gofod arbennig i gymunedau a chelf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r tîm prosiect wedi bod yn casglu arian a cheisio sefydlu caniatâd cynllunio. Yn dilyn cymeradwyaeth y cabinet ym mis Rhagfyr 2017, rhoddwyd y gwaith adeiladu allan i dendr a bydd gwaith yn dechrau ym mis Mai ar y safle ar gyffordd y Town Ditch a Ffordd Bangor yng Nghonwy. Disgwylir i'r Ganolfan agor yn ystod yr hydref 2019.

## Sut fydd yn edrych?



Mae'r dyluniad yn dangos adeilad unllawr modern sy'n cynnig golygfeydd godidog o Waliau a Chastell Conwy. Bydd y to gwyrdd yn cyd-fynd gyda choed Parc Bodlondeb a bydd y tir yn cael ei dirlunio i gynnwys llys darllen allanol a gardd.

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Bydd y Ganolfan yn borth i stori Conwy, ac yn cael ei staffio gan dîm profiadol a hoffus. Gall Ymwelwyr

- **Bori** drwy gasgliadau'r llyfrgell a threftadaeth
- **Archwilio'r** arddangosfeydd
- **Ymchwilio** i'r hanes lleol
- **Fwynhau** coffi gyda Chastell Conwy yn gwmni.

Bydd digon o gyfleoedd i gymryd rhan, o sesiynau blasu celf a threftadaeth i waith gwirfoddol wedi'i achredu i bob oedran.

Byddwn hefyd yn mynd â'r prosiect ar daith, gan gyflwyno arddangosfeydd a gweithgareddau i gymunedau ar draws Sir Conwy.

I gael gwybod rhagor ac i ymuno â'n rhestr bostio;

### E-bost

[diwylliant.culture@conwy.gov.uk](mailto:diwylliant.culture@conwy.gov.uk)

### Ffoniwch

01492 576 139

### Ewch

[Facebook.com/diwylliantconwyculture](https://www.facebook.com/diwylliantconwyculture)

**Ymwelwch** â'ch llyfrgell leol neu Archifdy Conwy



# Canolfan Ddiwylliant Conwy

Porth i stori Sir Conwy